# PRIFYSGOL BANGOR

## PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** **19 Chwefror 2010**

**Presennol:** **Dr A R Beaumont (yn y Gadair), Miss S Barnes, Mr I Connor, Mr J East, Mr E Evans, Mr S George, Mr M Goodwin, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr J Patton, Miss E Riches, Mr E W. Roberts, Dr G Roberts, Mr S Roberts, Mr I Salisbury, Mr G W. Jones (Ysgrifennydd).**

**Ymddiheuriadau:** **Mr R Behi, Dr G Clarke, Mr H Ellis, Mr D N Fordham, Mrs L Fowlie, Mr P Hogan, Mr J Jackson , Dr D M Roberts, yr Athro P Spencer, Mr A Williams, Dr D Wright.**

### 342. COFNODION

v. **Cyflwyno gwybodaeth ar ffurf ddealladwy, ynghyd â hyfforddiant ar-lein, ar lenwi Asesiadau COSHH ar reoli risgiau sy'n gysylltiedig Mae angen mwy o waith i adnabod anghenion am hyfforddiant yn y Colegau lle defnyddir cemegau peryglus. Byddai cydlynu'r ddarpariaeth o hyfforddiant yn ganolog yn fodd i rannu arbenigedd ac adnoddau ar raddfa ehangach.**

**Croesawyd y cyflwyniad a'r adroddiad gan y Pwyllgor, a nodwyd bod swyddogaethau'r Swyddog Diogelwch Biolegol a'r Swyddog Gwarchod rhag Ymbelydredd yn ychwanegol at swyddogaeth Dr J Latchford fel Swyddog Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Coleg Gwyddorau Naturiol.**

**Nodwyd hefyd y farn fod ad-drefnu'r Adran Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch er mwyn creu swydd Swyddog Cynnal Iechyd a Diogelwch yn gam cadarnhaol tuag at gefnogi Colegau wrth ddarparu adnodd ychwanegol i ymdrin â materion cymhleth cysylltiedig ag iechyd a diogelwch ar draws y Brifysgol. Nodwyd bod y swyddog hwnnw wedi chwarae rhan allweddol, a oedd weithiau'n flaenllaw, wrth hwyluso gwelliannau yn y modd y rheolir**

- **Llwybrau at Iechyd**
- **Chwa o Awyr Iach ac Ymwybyddiaeth o Alcohol**
- **Her Colli Pwysau**
- **Clwb Gofal y Cefn**
- **Dull y Cefn**
- **Amser yn y Gampfa**
- **Teithiau Cerdded yn yr Haf**
- **Ioga**
- **Ymwybyddiaeth Ofalgar.**

**Cytunwyd i ddarparu copi o'r cyflwyniad ar gyfer Gwobr Iechyd 2009 i'r Cyngor.**

**(c)** **Cefnogaeth Anabledd ac Iechyd Meddwl**

**347.**

**Ebrill 2010, â Phapurau Ffitrwydd, a ddylai bellach gynnwys cyngor y meddyg teulu ar sut i gefnogi gweithwyr i dychwelyd i'r gwaith yn fuan.**

iii. **Adeilad Alun Roberts: Lleisiwyd pryder ynglŷn â'r tymheredd oer mewn rhannau o'r adeilad. Nododd y Cyfarwyddwr Ystadau fod rheoli'r tymheredd yn lleol yn anodd mewn rhai mannau o fewn Ystâd y Brifysgol, ond bod systemau rheoli modern yn cael eu gosod pryd bynnag yr oedd cyfle i wneud hynny. Cynghorodd y dylai'r staff gysylltu â desg gymorth yr Ystadau pan godai materion o'r math yma. Dywedodd yn glir nad oedd y Brifysgol yn argymell y dylid prynu na defnyddio offer gwresogi lle ar gyfer swyddfeydd, yn annibynnol ar y system gwresogi canolog.**